DIRPRWY FARNWR RHANBARTH

TELERAU AC AMODAU'R PENODIAD

RHAGARWEINIAD

1. Mae Adran 8 Deddf Llysoedd Sirol 1984 yn darparu ar gyfer penodi Dirprwy Farnwyr Rhanbarth gan yr Arglwydd Ganghellor.

2. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am delerau ac amodau'r penodiad, a dylai pawb sy'n derbyn y swydd eu deall a chytuno iddynt. Mae'r telerau a'r amodau hyn yn gywir ar y dyddiad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon, ond mae'n bosibl y cânt eu newid dan rai amgylchiadau.

Y SEIRI RHYDDION

3. Yn sgil ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin am y Seiri Rhyddion yn yr Heddlu a'r Farnwriaeth, gofynnir i bawb a benodir am y tro cyntaf i swydd farnwrol, fel amod penodi, a ydynt yn aelod o'r Seiri Rhyddion, ac os nad ydynt, gofynnir iddynt hysbysu'r Arglwydd Ganghellor os digwydd iddynt ymuno â hwy wedi hynny. Rhaid i ddeiliaid swydd Farnwrol ddisgwyl y gellir cynnwys y wybodaeth hon mewn cofrestr gyhoeddus.

HYFFORDDIANT

4. Cyn eistedd ar ei ben ei hun, disgwylir i bob dirprwy a benodir o'r newydd gwblhau cyfnod o eistedd gyda Barnwr Rhanbarth profiadol am 5 niwrnod fan leiaf a disgwylir iddynt fynd ar gwrs cynefino preswyl 5 niwrnod a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol. Ar ôl eu penodi, bydd gofyn i ddirprwyon fynd ar gyrsiau hyfforddi a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol. Gall methu â mynd ar gyrsiau o'r fath olygu bod Dirprwy'n cael ei ddiswyddo.

5. Dywedir wrth ymgeiswyr llwyddiannus i ba Gylchdaith y maent wedi'u neilltuo. Bydd Cyfarwyddwr y Rhanbarth neu'r Ardal yn rhoi gwybod iddynt, o fewn 6-8 wythnos, pwy yw'r Barnwr Rhanbarth Goruchwyliol (a fydd yn goruchwylio'r hyfforddiant) ac am y trefniadau hyfforddi. Bydd y Bwrdd Astudiaethau barnwrol, o fewn yr un cyfnod, yn rhoi gwybod iddynt am ddyddiadau'r Cwrs Cynefino nesaf i ddirprwyon ac yn trefnu iddynt fynd i'r cwrs hwnnw.

GWERTHUSO A MENTORA

6. Bydd Barnwr Gwerthuso'r Gylchdaith yn cysylltu â'r Dirprwy Farnwr Rhanbarth sydd newydd ei benodi ynglŷn â'r Cynllun Gwerthuso a Mentora.

7. Ar ôl eistedd gyda Barnwr Rhanbarth profiadol a chyn cychwyn eistedd fel Dirprwy Barnwr Rhanbarth, gofynnir i'r Dirprwy enwebu nifer o Farnwyr Rhanbarth (tri fel rheol) y byddai'r Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn fodlon eu cael yn Fentor. Bydd Cydlynydd Gwerthuso Grŵp(iau) y Llysoedd dan sylw'n dewis Mentor gan roi sylw i enwebiadau'r Dirprwy Farnwr Rhanbarth ond heb ei gyfyngu ei hun i'r rheini.

8. Ar gyfer Dirprwyon sydd newydd eu penodi, cynhelir un gwerthusiad tua diwedd y chwe mis cyntaf ar ôl iddynt ddechrau eistedd, ac ail werthusiad tua diwedd yr ail chwe mis, ac - os bydd y Cydlynydd Gwerthuso'n penderfynu felly - trydydd gwerthusiad yn ystod y chwe mis nesaf.

HYD Y PENODIAD

9. Bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn cael ei benodi am gyfnod (adnewyddadwy) o bum mlynedd, yn amodol ar y trothwy oedran uchaf.

ADNEWYDDU'R PENODIAD

10. Ar ddiwedd y penodiad cychwynnol am gyfnod o bum mlynedd, adnewyddir y penodiad am gyfnodau pellach o bum mlynedd yn awtomatig ar yr amod bod yr unigolyn yn cytuno ac nad yw'n croesi'r trothwy oedran uchaf, oni chodir cwestiwn ynglŷn â pheidio ag adnewyddu, neu onid yw'r unigolyn yn bodloni amodau neu gymwysterau'r penodiad rhagor.

11. Mae saith rheswm dros beidio ag adnewyddu:

    a. anallu
    b. camymddwyn, gan gynnwys
    c. methu'n rheolaidd â chydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da);
    d. methu â chydymffurfio â'r gofynion hyfforddi;
    e. methu'n barhaus â chadw at y safonau a ddisgwylir yn rhesymol gan ddeilydd swydd o'r fath;
    f. rhan o drefn lleihau niferoedd oherwydd newidiadau yn y gofynion gweithredol; a
    g. rhan o newid strwythur er mwyn galluogi recriwtio Dirprwy Farnwyr Rhanbarth newydd.

12. Cymerir pob penderfyniad i beidio ag adnewyddu ar sail (a) - (e) gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus. Cymerir penderfyniadau o'r fath ar ôl i farnwr gynnal ymchwiliad, a bydd hwnnw'n adrodd i'r Arglwydd Ganghellor ac i'r Arglwydd Brif Ustus.

13. Cymerir pob penderfyniad i beidio ag adnewyddu ar sail (f) neu (g) ar sail yr egwyddor "cyntaf i mewn, cyntaf allan", a'r Arglwydd Ganghellor gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus fydd yn penderfynu defnyddio seiliau o'r fath ac i ba raddau y'u defnyddir.

14. Caiff Dirprwy Farnwyr Rhanbarth ddewis terfynu eu penodiad drwy ymddiswyddo neu drwy wrthod derbyn adnewyddiad pan ddaw eu tymor i ben.

TROTHWY OEDRAN UCHAF

15. Fel rheol, ni fydd yr Arglwydd Ganghellor yn estyn penodiad Dirprwy Farnwr Rhanbarth y tu hwnt i 70 oed.

EISTEDDIADAU

16. Mae'r penodiad hwn yn golygu dyletswydd i eistedd mewn unrhyw ganolfan llysoedd yn y wlad er mwyn rhoi'r awdurdodaeth berthnasol ar waith. Ni ddylid ystyried bod hyn yn golygu y gellir disgwyl lefel benodol o eisteddiadau yn y dyfodol, nac ychwaith ddisgwyl lefel benodol o eisteddiadau yn y dyfodol mewn lleoliad penodol.

17. Mae'r Arglwydd Ganghellor, drwy ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus, wedi penderfynu y dylid cynnig i ddeiliaid swydd sy'n derbyn ffi yn yr awdurdodaeth hon 15 diwrnod o eisteddiadau'r flwyddyn fan leiaf a bod gofyn iddynt eistedd gynifer o weithiau â hynny. Mae'n bosibl y disgwylir i Ddirprwy Farnwr Rhanbarth eistedd am fwy o ddiwrnodau na'r nifer sy'n ofynnol a dibynnu ar faint o waith sydd ar gael ac amgylchiadau unigol. Ni chaiff Dirprwy Farnwr Ranbarth eistedd am fwy na 50 diwrnod y flwyddyn. Mae'n bosibl yr addesir y ffigurau hyn yn gyffredinol bryd i'w gilydd, yng ngoleuni newid amgylchiadau gweithredol; cyhoeddir unrhyw newid. Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ei hystyried yn gyfrifoldeb personol i Ddirprwy Farnwr Rhanbarth sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau eistedd ac eithrio, dan amgylchiadau eithriadol, bod hynny'n amhosibl yn sgil cyflawni dyletswyddau cyhoeddus eraill.

18. Dylai Dirprwy Farnwr Rhanbarth gynllunio i sicrhau ei fod ar gael ar gyfer busnes barnwrol rhwng 9.30 am a 4.30 pm. Serch hynny, gall y trefniadau ymarferol amrywio

a dylai Dirprwy Farnwyr Rhanbarth gadw at ofynion y llysoedd. Mae'n debygol y bydd disgwyl i Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, yn ogystal â chynnal gwrandawiadau, gwblhau gwaith papur barnwrol a ddyrennir gan staff y llys, dan gyfarwyddyd y Barnwr Rhanbarth.

GWAITH BARNWROL ARALL

19. Nid oes gwrthwynebiad mewn egwyddor i unigolyn ddal mwy nag un penodiad barnwrol.

20. Caiff deilydd swydd farnwrol amser llawn, ar yr amod bod hynny'n briodol, eistedd fel Dirprwy Farnwr Rhanbarth sy'n derbyn ffi, a bydd gofyn iddo eistedd am 15 diwrnod fan leiaf. Fodd bynnag, bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn disgwyl i ddeiliaid swydd farnwrol gyflogedig roi'r flaenoriaeth i ddyletswyddau'r swydd honno a bydd y trefniadau ar gyfer eisteddiadau eraill fel Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn amodol ar sicrhau cytundeb rhwng deilydd y swydd, y Gwasanaeth Llysoedd a Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr.

GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

21. Yr egwyddor lywodraethol yw na chaiff neb eistedd mewn swydd farnwrol dan unrhyw amgylchiadau, petai rhywun gwrthrychol, gan wybod yr holl ffeithiau perthnasol wrth edrych y sefyllfa, yn amau'n rhesymol nad yw'r person hwnnw'n ddiduedd. Fel egwyddor gyffredinol felly, ni ddylai ymarferydd cyfreithiol eistedd fel Dirprwy Farnwr Rhanbarth, nac ymddangos mewn llys sirol nac yn yr un man arall os yw'n debygol y bydd hynny'n peri chwithdod iddo yn rhinwedd y naill swydd neu'r llall.

22. Fel rheol gyffredinol, nid yw'n ddymunol i ddeilydd swydd farnwrol sy'n derbyn ffi ac sy'n ymarferydd cyfreithiol eistedd mewn llysoedd lle bydd ef neu lle bydd unrhyw bartner neu rywun a gyflogir ganddynt yn ymarfer yn rheolaidd. Pwrpas hyn yw osgoi sefyllfa lle cânt eu dyrannu i ddyfarnu mewn achos (neu sawl achos) ac y byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'r achos hwnnw. Os bydd deilydd swydd farnwrol sy'n derbyn ffi ac yntau'n ymarferydd cyfreithiol yn eistedd mewn llys o'r fath yna, byd yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ei ystyried yn gyfrifoldeb personol i ddeilydd y swydd farnwrol (ac nid yn gyfrifoldeb i staff y llysoedd) sicrhau cyn belled ag y bo modd, ei fod yn osgoi unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai olygu ei bod yn rhaid iddo roi'r gorau i achos penodol.

23. Deiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi: -

(i) ni ddylai'r rhain eistedd mewn achosion sy'n cynnwys eu cwmni hwy eu hunain neu eu cleientiaid neu fel arall lle gallai gwneud hynny roi'r argraff o ragfarn o ran gweinyddu cyfiawnder.

(ii) dylent gydymffurfio â'r gyfraith achos presennol sy'n llywodraethu buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill o ran penderfynu a ddylid datgan budd mewn achos penodol, ynteu roi'r gorau iddo e.e. "*Locabail (UK) Ltd v Bayfield Properties Ltd and Another* [2000] Q.B 451; Yn re Medicaments and Related Classes of Goods (No 2) [2001] 1 W.L.R 700; a Lawal v Northern Spirit Limited [2003] UKHL 35".

iii) ni ddylent eistedd mewn achos os oes ganddynt fudd personol, proffesiynol neu ariannol yn yr achos hwnnw, neu os oes gan unrhyw fusnes neu ymarfer y maent yn aelod ynddo ym mha rinwedd bynnag, fudd o'r fath.

24. Disgwylir i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch, gwleidyddol neu fel arall, a fyddai'n gwrthdaro â'u swydd farnwrol neu a allai gael ei weld yn weithgarwch sy'n amharu ar eu amhleidioldeb, gan roi sylw, er enghraifft i sylwadau'r Llys Apêl yn achos *Locabail.* Dylent hefyd fod yn ymwybodol o'r risg o ddiffyg amhleidioldeb sy'n codi yn sgil erthyglau a gyhoeddir

neu ddatganiadau cyhoeddus, ac ati. (*Timmins v Gormley* [(2000) 2 WLR 870)]. Dylai deiliaid swydd farnwrol sy'n derbyn ffi fod yn ofalus wrth gyfeirio at eu penodiad ar benllythyr, er enghraifft, neu yn llenyddiaeth hysbysebu eu siambrau. Dim ond yn ystod y cyfnod pan fyddant yn gwasanaethu'n farnwrol y bydd deiliaid sy'n derbyn ffi'n dal y swydd honno ac ni ddylent ddefnyddio'u penodiad er mwyn creu mantais iddynt nac yn bersonol, yn broffesiynol nac yn fasnachol.

YMDDYGIAD BARNWROL

25. Mae'r cyhoedd yn haeddu ac yn disgwyl y safonau ymddygiad uchaf un gan y sawl sy'n dal swydd farnwrol. Heb ragfarn i'r paragraffau isod, dylai Dirprwy Farnwr Rhanbarth hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus cyn gynted byth ag y bo modd os yw'n gwybod am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad a allai effeithio ar ei swydd neu a allai adlewyrchu ar sefyllfa ac enw da'r farnwriaeth drwyddi draw.

26. Dylai Dirprwy Farnwyr Rhanbarth hysbysu'r Arglwydd Brif Ustus hefyd os ânt i drafferthion ariannol difrifol, yn enwedig os oes achos cyfreithiol yn debygol o gael ei roi ar waith, neu os oes achos o'r fath wedi'i gychwyn eisoes. Dylent roi gwybod hefyd i'r Arglwydd Brif Ustus am unrhyw gŵyn yn eu herbyn gan eu corff proffesiynol, boed hynny'n berthnasol i'w gallu proffesiynol ynteu i'w gallu barnwrol. Rhaid i ddeiliaid swydd roi gwybod i'r Arglwydd Brif Ustus os digwydd iddynt fod yn rhan o unrhyw achos llys, neu os ydynt yn debygol o fod.

27. Os bydd deilydd swydd wedi cael rhybuddiad ar gyfer unrhyw drosedd, neu wedi cael ei gyhuddo o drosedd naill ai cyn cychwyn gwasanaethu neu wedi hynny, sef trosedd nad yw'n drosedd parcio neu'n drosedd goryrru heb amgylchiadau gwaethygol, h.y. trosedd y gorfodir cyfnod o waharddiad, neu o leiaf 6 phwynt cosb amdano, neu drosedd sy'n arwain at gyfanswm o fwy na 6 phwynt cosb sydd wedi crynhoi ar y pryd, dylai sôn am hyn ar unwaith wrth yr Arglwydd Brif Ustus a sicrhau ei fod yn cael gwybod am hynt yr achos a'i ganlyniad. Gallai methu â gwneud hynny mewn rhai achosion olygu camymddwyn prima facie. Nid yw cael euogfarn am rai troseddau, gan gynnwys rhai materion sy'n ymwneud â moduro, o anghenraid yn cael ei ystyried yn anghydnaws â dal swydd farnwrol. Serch hynny, pe ceid deilydd swydd farnwrol yn euog o drosedd difrifol, er enghraifft trosedd sy'n ymwneud â thrais yn erbyn pobl, anonestrwydd neu anfoes, byddai'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried bod ganddynt reswm dros ystyried rhoi eu pwerau ar waith i ddiswyddo'r unigolyn ar sail camymddwyn; a bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried euogfarn am drosedd gyrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau mor ddifrifol nes bod hynny'n cael ei ystyried yn gamymddwyn prima facie.

28. Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl i bob deilydd swydd Farnwrol gynnal safonau cwrteisi ac ystyriaeth priodol bob amser. Nid ydynt yn ystyried ymddygiad a allai beri tramgwydd, yn enwedig ar sail hil neu grefydd, neu aflonyddu rhywiol, yn ymddygiad sy'n gyson â'r safonau a ddisgwylir gan y rheini sy'n dal swydd farnwrol. Yn eu barn hwy, gellid ystyried cwyn a brofir ynglŷn ag ymddygiad fel hyn, boed hynny'n dilyn cwyn flaenorol neu beidio, yn gamymddwyn.

29. Llywodraethir rhoi pwerau disgyblu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus ar waith gan y rheoliadau a wnaeth yr Arglwydd Brif Ustus o dan adran 115 ac 117 Deddf Diwygio'r Cyfansoddiad 2005. Maent yn golygu y caiff unrhyw sylwadau y bydd deiliaid swyddi'n dymuno'n cyflwyno ynglŷn â'r mater eu hystyried yn llawn. Ni fydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ystyried rhoi'r pwerau a freinir ynddynt yng nghyswllt ymddygiad barnwrol ar waith heb reswm difrifol a heb ystyried yn ofalus iawn.

DISWYDDO

30. Os bydd yr Arglwydd Ganghellor yn meddwl bod hynny'n briodol, caiff derfynu penodiad Dirprwy Farnwr Rhanbarth am resymau penodol. Mae pum sail dros ddiswyddo rhywun:

a. anallu
b. camymddwyn, gan gynnwys
c. methu â chydymffurfio â'r gofynion hyfforddi;
d. methu'n rheolaidd â chydymffurfio â'r gofynion eistedd (heb reswm da); a
e. methu'n barhaus â chadw at y safonau a ddisgwylir yn rhesymol gan ddeilydd swydd o'r fath;

31. Cymerir pob penderfyniad gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus. Gwneir penderfyniadau o'r fath yn unol â'r gweithdrefnau yn y Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 29 uchod.

FFIOEDD, TRETH INCWM A CHYFRANIADAU YG

32. Ni thelir cyflog na phensiwn yng nghyswllt y swydd hon. Bydd Dirprwy Farnwr Rhanbarth yn cael ffi am bob diwrnod y bydd yn eistedd.

33. Mae'n egwyddor gyffredinol na fydd gweision y Goron sy'n cael cyflog fel rheol yn cael tâl ychwanegol am swyddi cyhoeddus a ddelir, neu am waith a wneir, ar sail derbyn ffioedd ar yr un pryd. Dan rai amgylchiadau (e.e. os gellir dangos bod yr eisteddiadau barnwrol yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod o wyliau di-dâl o'r brif swydd neu'r brif gyflogaeth) efallai y bydd modd talu ffioedd eistedd dyddiol. Er hynny, yn gyffredinol, ni chaiff deiliaid swyddi cyhoeddus cyflogedig a gweision cyhoeddus sy'n cael tâl gan y Llywodraeth Ganol eu talu am unrhyw swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi a ddelir ar yr un pryd

34. Bydd disgwyl i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi sy'n ymarferwyr neu'n gyflogeion yn y sector preifat fod yn agored ac yn dryloyw gyda'u cwmni, gyda'u siambrau neu gyda'u prif gyflogwr ynglŷn â'r trefniadau, gan gynnwys y trefniadau ariannol, sy'n berthnasol i'w penodiad barnwrol. Mae'n hanfodol bod trefniadau talu, ac unrhyw ansicrwydd ynglŷn ag amgylchiadau penodol unigolyn, yn cael eu datrys adeg y penodi neu cyn gynted byth ag y bo modd ar ôl newid perthnasol yn yr amgylchiadau yn ystod cyfnod gwasanaethu. Mae'r un disgwyliadau'n berthnasol i'r deiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi hynny a gyflogir gan lywodraeth leol neu sy'n swyddogion llywodraeth leol.

35. Ystyrir Dirprwy Farnwyr Rhanbarth yn ddeiliaid swyddi at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. Felly, bydd rhaid talu treth dan Atodlen E y Ddeddf Trethi a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar ffioedd. Bydd yr arian hwn sy'n ddyledus yn cael ei dynnu drwy drefn cyflogres y Weinyddiaeth Cyfiawnder a thelir y ffi net i ddeilydd y swydd. Ni chodir TAW ar y ffioedd.

36. Byddai'n gymorth ac yn osgoi dryswch petai deiliaid swyddi, wrth ohebu â Chyllid a Thollau EM ynglŷn â ffioedd a lwfansau sy'n berthnasol i unrhyw swydd sy'n derbyn ffi ac â Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM ynglŷn â gohirio talu neu gael ad-daliad ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn rhoi cyfeiriad yr awdurdod talu ffioedd, y tribiwnlys priodol ac yn sôn mai deiliaid swyddi ydynt yn hytrach na'u bod yn cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

LWFANS TEITHIO a LWFANS CYNHALIAETH DROS NOS

37. Gall costau teithio a than rai amgylchiadau penodol, lwfansau cynhaliaeth dros nos fod yn daladwy yng nghyswllt eisteddiadau, mynd ar gyrsiau hyfforddi ac ati. Bydd gan Ddirprwy Farnwr Rhanbarth sy'n teithio ar drên i ganolfan y gofynnwyd iddynt eistedd ynddi yr hawl i docyn trên dosbarth cyntaf a chost tacsi os bydd angen y naill ben i'r daith a'r llall. Os byddant yn defnyddio'u car eu hunain, bydd ganddynt hawl i lwfans fesul milltir ar gyfradd a bennir o bryd i'w gilydd gan yr Adran. Bob nos y bydd gofyn i Ddirprwy Farnwr Rhanbarth aros oddi cartref, bydd ganddo'r hawl i lwfans cynhaliaeth dros nos. Bydd staff Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi'n rhoi gwybod i'r Dirprwy Farnwyr Rhanbarth ynglŷn â manylion y cyfraddau fesul milltir a'r lwfansau cynhaliaeth dros nos. Bydd Swyddfa'r Cyfarwyddwr Ardal yn rhoi gwybod iddynt am

fanylion y rheolau sy'n berthnasol i dalu'r lwfansau hyn. Mae'n bosibl y bydd y rheolau sy'n llywodraethu cyfraddau'r lwfansau hyn yn newid o bryd i'w gilydd, a rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd newidiadau i'r rheolau treth Cyllid a Thollau EM sy'n llywodraethu'r ffordd yr ymdrinnir â threthu, a chyfraddau treth, ar gyfer y lwfansau hyn a rhoddir gwybod i ddeiliaid swyddi am unrhyw newidiadau o'r fath.

CYFNOD MAMOLAETH, TADOLAETH A MABWYSIADU A THÂL SALWCH STATUDOL

38. Bydd gan ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n derbyn ffi yr hawl i gyfnod mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu ac i Dâl Salwch Statudol. Bydd manylion yr hawliau hyn ar gael i ddeiliaid swyddi fel y bydd hynny'n briodol.

CANLLAWIAU AR GYFER TRIN Y CYFRYNGAU

39. Bydd Swyddfa Cysylltiadau'r Farnwriaeth yn rhoi canllawiau ar gyfer trin y cyfryngau. Mae'r Swyddfa hon yn rhoi cymorth i ddeiliaid swyddi barnwrol yng Nghymru a Lloegr o ran cyfathrebu (gan gynnwys barnwyr cyflogedig a barnwyr sy'n derbyn ffi, aelodau tribiwnlysoedd ac ynadon). Mae hyn yn cynnwys cyngor ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau megis camadrodd a cheisiadau am gyfweliadau, yn ogystal â gwefan farnwrol allanol, mewnrwyd a chylchlythyr i'r farnwriaeth. Yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol y mae'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Arglwydd Brif Ustus. Nid oes cysylltiad rhyngddi ag unrhyw un o swyddfeydd y wasg y Llywodraeth. Mae tîm cyfryngau'r Swyddfa ar gael ar 020 7073 4852, ffacs 020 7947 6544 neu e-bost *press.enquiries@judiciary.gsi.gov.uk.* Rhif y teclyn galw y tu allan i oriau swyddfa yw 07659 550652.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Mehefin 2009